**HYSBYSIAD AM Y DATGANIAD AMGYLCHEDDOL**

**GWEINIDOGION CYMRU**

**CEFNFFORDD YR A465 CASTELL-NEDD I'R FENNI – RHANNAU 5 A 6 O GYNLLUN DEUOLI Y FENNI I HIRWAUN – DOWLAIS TOP I HIRWAUN**

**ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL HYSBYSIAD AM DDATGANIAD AMGYLCHEDDOL YN UNOL AG ADRAN 105B O DDEDDF PRIFFYRDD 1980 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

**ASESIAD O'R GOBLYGIADAU AR GYFER SAFLEOEDD EWROPEAIDD HYSBYSIAD AM DDATGANIAD A FYDD YN SAIL I ASESIAD PRIODOL YN UNOL Â CHYFARWYDDEB Y CYNGOR 92/42 EC A RHEOLIAD 63 O REOLIADAU GWARCHOD CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y Datganiad Amgylcheddol (DA) a enwir uchod, ynghyd â'r Atodiad iddo a'r Datganiad a fydd yn Sail i Asesiad Priodol (DSAP), ynghyd â'r Atodiad iddo, a'r holl sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd mewn ymateb i gyhoeddi'r dogfennau hyn, ac wedi penderfynu bwrw ymlaen â Rhannau 5 a 6 o Gynllun Deuoli y Fenni i Hirwaun ar yr A465 – Dowlais Top i Hirwaun.

Ysgrifennwyd y DSAP a'r Atodiad iddo o dan reoliad 61 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad oes unrhyw wahaniaethau a fyddai'n effeithio ar y penderfyniad hwn rhwng gofynion rheoliad 61 o Reoliadau 2010 a rheoliad 63 o Reoliadau 2017.

Mae copïau o'r DA, yr Atodiad iddo, y DSAP, yr Atodiad i'r DSAP a Llythyr Penderfyniad Gweinidogion Cymru, gan gynnwys unrhyw amodau, y rhesymau a'r ystyriaethau sy'n sail i'r Penderfyniad, ac Adroddiad yr Arolygydd a gynhaliodd Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol i'r Cynllun, wedi eu hadneuo yn y mangreoedd a ganlyn lle y maent ar gael i'w gweld yn rhad ac am ddim yn ystod oriau busnes arferol rhwng 05 Chwefror 2019 a 19 Mawrth 2019.

- Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,

**NOTICE OF THE ENVIRONMENTAL STATEMENT**

**THE WELSH MINISTERS**

**THE NEATH TO ABERGAVENNY TRUNK ROAD A465 ABERGAVENNY TO HIRWAUN DUALLING SCHEME SECTIONS 5 AND 6 – DOWLAIS TOP TO HIRWAUN**

**ENVIRONMENTAL IMPACT ASSESSMENT NOTICE OF ENVIRONMENTAL STATEMENT IN ACCORDANCE WITH SECTION 105 B OF THE HIGHWAYS ACT 1980 (AS AMENDED)**

**ASSESSMENT OF IMPLICATIONS ON EUROPEAN SITES NOTICE OF STATEMENT TO INFORM AN APPROPRIATE ASSESSMENT IN ACCORDANCE WITH COUNCIL DIRECTIVE 92/42 EC AND REGULATION 63 OF THE CONSERVATION OF HABITATS AND SPECIES REGULATIONS 2017**

The Welsh Ministers have considered the above named Environmental Statement (ES) together with its Supplement, and the Statement to Inform an Appropriate Assessment (SIAA) together with its Supplement, and all written comments made in response to the publication of these documents and have decided to proceed with the A465 Abergavenny To Hirwaun Dualling Scheme Sections 5 And 6 – Dowlais Top to Hirwaun.

The SIAA and its Supplement were written under Regulation 61 of the Conservation of Habitats and Species Regulations 2010. The Welsh Ministers are satisfied that there are no differences that would affect this decision between the requirements of Regulation 61 of the 2010 Regulations and Regulation 63 of the 2017 Regulations.

Copies of the ES, ES Supplement, SIAA, SIAA Supplement and the Welsh Ministers Decision Letter including any conditions, the reasons and considerations behind the Decision, and the Inspector's Report who conducted a Public Local Inquiry into the Scheme, have been deposited at the following premises where they are open to inspection free of charge at all reasonable business hours from 05 February 2019 to 19 March 2019.

- Orders Branch Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10

Caerdydd CF10 3NQ

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Parc Diwydiannol Cambrian, Tonypandy CF40 2XX
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystradmynach, Yr Hengoed CF82 7PG
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu LD3 7HP
- Llyfrgell Hirwaun, Y Stryd Fawr, Hirwaun, CF44 9SW
- Canolfan Gymunedol Cefn Coed, Old Drill Hall Road, Cefncoedycymer, Merthyr Tudful CF48 2NA
- Llyfrgell Dowlais, Church Street, Dowlais, Merthyr Tudful CF48 3HS.

Gellir prynu copïau electronig o'r DA a'r DSAP, gan gynnwys yr atodiadau iddynt (ar CD) o'r cyfeiriad uchod yn Llywodraeth Cymru am £5 (gan gynnwys pecynnu a phostio). Gellir hefyd gael copïau papur o'r cyfeiriad uchod, er y bydd ffi weinyddol yn cael ei chodi i dalu am y gost o gopïo (pris ar gais).

Mae copïau electronig o'r Crynodeb Annhechnegol, y DA a'r DSAP a'r atodiadau iddynt wedi eu cyhoeddi ar-lein yn https://beta.llyw.cymru/a465-rhan-5-6-dowlais-top-i-hirwaun, ynghyd â chopi o'r hysbysiad hwn.

Caiff UNRHYW BERSON A DRAMGWYDDIR gan y penderfyniad a wnaed i fwrw ymlaen, ar ôl i'r DA a'r DSAP, gan gynnwys yr atodiadau iddynt, a'r sylwadau yn eu cylch, gael eu cyhoeddi, sy'n dymuno herio eu dilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddynt, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o 05 Chwefror 2019 i 19 Mawrth 2019 neu o fewn 6 wythnos i'r dyddiad y caiff yr hysbysiad hwn ei gyhoeddi gyntaf, os daw cyfnod o'r fath i ben yn ddiweddarach ar y sail:

nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980,
neu
na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad yn y Ddeddf honno neu mewn rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw,

Os gwneir cais o'r fath, caiff y Llys atal neu ddiddymu'r penderfyniad hwnnw neu unrhyw ddarpariaeth ynddo.

3NQ

- Rhondda Cynon Taf County Borough Council, The Pavilions, Cambrian Industrial Park, Tonypandy, CF40 2XX
- Merthyr Tydfil County Borough Council, Civic Centre, Castle Street, Merthyr Tydfil, CF47 8AN
- Caerphilly County Borough Council, Penallta House, Tredomen Park, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG
- Brecon Beacon National Park Authority, Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, LD3 7HP
- Hirwaun Library, High Street, Hirwaun, CF44 9SW
- Cefn Coed Community Centre, Old Drill Hall Road, Cefn Coed, Merthyr Tydfil, CF48 2NA
- Dowlais Library, Church Street, Dowlais, Merthyr Tydfil, CF48 3HS.

Electronic copies of the complete ES and SIAA including their supplements (on CD) can be purchased from the above Welsh Government address at a cost of £5 (including postage and packaging). Paper copies are also available from the above address, although an administrative charge will be made to cover the cost of copying (price on application).

Electronic copies of the Non-Technical Summary (NTS), the ES and SIAA including their supplements, are published on-line at https://beta.gov.wales/a465-section-5-and-6-dowlais-top-hirwaun together with a copy of this notice.

ANY PERSON AGGRIEVED by the decision taken to proceed following the publication of the ES and the SIAA including their supplements, and the comments thereon who desires to question their validity, or the validity of any provision in them, may apply to the High Court within 6 weeks from 05 February 2019 to 19 March 2019 or 6 weeks from the date of first publication of this notice, if such a period shall expire later on the grounds that:

it is not within the powers of the Highways Act 1980,
or
any requirement of that Act or of regulations made under that Act has not been complied with in relation to that decision,

On such an application, the Court may suspend or quash that decision or any provision in it.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y prosiect, y DA, y DSAP, y Penderfyniad, neu'r hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru, neu Mark Dixon, Seilwaith, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
ar ran Gweinidogion Cymru

Further information about the project, the ES, SIAA the Decision, or this notice can be obtained from Welsh Government, Orders Branch, or Mark Dixon, Infrastructure, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**M D BURNELL**
Transport
Welsh Government
On behalf of the Welsh Ministers